GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

15 Hydref 2010

Estyniad i'r Adolygiad O Wasanaethau Mamolaeth ac Iechyd Plant

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cadarnhau y bydd yn cymryd mwy o amser i adolygu gwasanaethau Mamolaeth ac Iechyd Plant.

Cynhelir mwy o gyfarfodydd yn ystod yr wythnosau nesaf gyda Meddygon Ymgynghorol, Meddygon Teulu, y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru.

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yma ac ni wneir unrhyw argymhellion i'r Bwrdd Iechyd hyd nes y gellir datblygu consensws clinigol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo o hyd i edrych ar yr holl opsiynau ac mae am sicrhau fod yr holl dystiolaeth a safbwyntiau sydd ar gael yn cael eu hystyried cyn gwneud argymhellion ar wasanaethau i'r dyfodol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn trafod â'r Cyngor Iechyd Cymuned sut y byddwn yn ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd.

Ymhlith y prif faterion a fynegwyd gan randdeiliaid fel rhan o'r adolygiad mae:

- Diogelwch cludo a throsglwyddo cleifion sydd angen gofal brys
- Pa mor hawdd fyddai hi i gleifion a gofalwyr gael mynediad at wasanaethau ar draws Gogledd Cymru
- Pa mor fforddiadwy ydy'r opsiynau
- Cyfleoedd hyfforddi i feddygon a grwpiau staff eraill
- Anawsterau wrth recriwtio staff arbenigol i redeg gwasanaethau'n ddiogel
- Pa mor addas ydy adeiladau a chyfleusterau presennol i ddarparu gwasanaeth modern

Mae'r Bwrdd Iechyd yn bryderus na ellir cynnal gwasanaethau fel maen nhw ar hyn o bryd, i'r dyfodol. Mae angen gweithio'n fwy hyblyg ac effeithlon i sicrhau ansawdd a diogelwch. Mae gennym gyfle yn awr i ddatblygu gwasanaethau arbenigol mwy effeithiol a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd staff yn yr ysbytai a'r gymuned.

Dywedodd Dr Brendan Harrington, Paediatregydd Ymgynghorol a Phennaeth Staff Plant a Phobl Ifanc: "Gwyddom fod gan bobl farn gref am y materion yma a drwy roi mwy o amser, gallwn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad. Y rheswm fod angen trafod pob opsiwn gydag ystod eang o randdeiliaid ydy er mwyn dynodi'r heriau. Yn awr, mae arnom angen canolbwyntio ar gael atebion i'r heriau yma os ydym am ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel i'n cleifion yn awr ac yn y dyfodol."

Dywedodd Mr Simon Leeson, Obstetregydd Ymgynghorol a Phennaeth Staff Gwasanaethau Merched Dros Dro: " Yn seiliedig ar yr ymatebion a gawsom, mae arnom angen adolygu'r dystiolaeth dros newid yn fanylach. Wedyn, gallwn ystyried sut y gallai'r opsiynau weithio'n ymarferol. Rydym yn croesawu'r holl sylwadau ac awgrymiadau, a mwyaf yn y byd o bobl y gallwn ni ymgysylltu â nhw, gorau yn y byd fydd y gwasanaethau yn y dyfodol."

Mae'r bwrdd adolygu prosiect bellach wedi croesawu'r Meddyg Teulu, Dr Chris Stockport fel aelod, a bydd y bwrdd yn parhau i weithio dros y misoedd nesaf i geisio darganfod ffordd ymlaen.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies	**01745 534495**
Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**

15 October 2010

Review of Maternity and Child Health Services Extended

The Betsi Cadwaladr University Health Board has confirmed that it will now take more time to review Maternity and Child Health services.

Further meetings will be held in the coming weeks with Consultants, GPs, the voluntary sector and local authority representatives across North Wales.

No decisions have been made at present and no recommendations will be made to the Health Board until a clinical consensus can be developed.

The Health Board remains committed to looking at all options and wants to ensure all available evidence and viewpoints are considered before recommendations on future services are made. The Health Board will discuss with the Community Health Council how we engage and consult with the public.

The main issues raised by stakeholders as part of the review include:

- The safety of transport and transfer of patients who need urgent care
- How easily could patients and carers access services across North Wales
- Affordability
- Training opportunities for doctors and other staff groups
- Difficulties in recruiting specialist staff to run services safely
- How suitable current buildings and facilities are to provide a modern service

The Health Board is concerned that services, as currently run, cannot be sustained into the future. There is a need to work more flexibly and efficiently to ensure quality and safety. We now have an opportunity to develop more effective specialist services and make the best use of the expertise of staff based in hospitals and in the community.

Dr Brendan Harrington Consultant Paediatrician and Chief of Staff for Children and Young People said: "We know that people have strong views on these issues and by allowing more time we can ensure that all of these are considered as part of the review. The reason that all options need to be discussed with a wide range of stakeholders is to identify the challenges they pose. We now need to focus on finding solutions to these challenges if we are to provide safe, high quality services for our patients now and in the future".

Mr Simon Leeson, Consultant Obstetrician and Acting Chief of Staff for Women's Services said: "Based on the responses we have received, we need to review the evidence for change in greater detail. We will then be able to consider how the options could work in practice. We welcome all comments and suggestions and the more people we can engage in this process, the better the service will be in the future."

The review project board has now welcomed local GP Dr Chris Stockport as a member and will continue to work over the coming months to find a way forward.

ENDS

Notes to Editors:

1. The four options currently proposed are:

- A 3 unit model which would require a different service model to provide the maternity and paediatric units at Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd and Wrexham Maelor Hospital

- A 2 unit model with obstetric and paediatric units at Ysbyty Gwynedd and Ysbyty Glan Clwyd, supported by Midwifery led Units

- A 2 unit model with obstetric and paediatric units at Ysbyty Gwynedd and Ysbyty Maelor, supported by Midwifery led Units

- A Central Paediatric Unit at Ysbyty Glan Clwyd with Paediatric day units at Ysbyty Gwynedd and Wrexham Maelor Hospital in conjunction with a 2 or 3 unit obstetric model

All options would be supported by enhanced community services.

2. More information on the review is available under 'Current Developments' at www.bcu.wales.nhs.uk

For further information please contact:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**
Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**